Sut ddylwn i adolygu?
Rhowch gynnig ar un o'r rhain ... ..

A: MAPIAU MEDDWL: Gwneud Mapiau meddwl neu fapiau cyd-gysylltu yn hytrach na chymryd nodiadau llinellog. Bydd mapio eich nodiadau gan wasgaru geiriau allweddol mewn patrwm o gysylltiadau o bwynt canolog yn gwneud y defnydd gorau o'ch cof. Os ydych yn defnyddio lliw a delweddau ar y mapiau, byddwch yn defnyddio pŵer o ddwy ochr eich ymennydd - creadigol a rhesymegol.

<u>Sut i wneud map meddwl:</u>

1. Dechreuwch gyda'r thema yng nghanol y dudalen.

2. Yna datblygwch eich prif syniad.

3. Rhaid i bob cangen fod yn gysylltiedig â'r gangen wrth ei ymyl.

4. Defnyddiwch eiriau allweddol yn unig a delweddau.

5. Rhaid ysgrifennu'r Geiriau Allweddol ar hyd y canghennau.

6. Bydd printio eich geiriau allweddol yn eu gwneud yn fwy cofiadwy.

7. Defnyddiwch uwcholeuydd a marcwyr lliw i roi côd lliw ar y canghennau.

8. Gwnewch bethau i sefyll allan ar y dudalen fel eu bod yn sefyll allan yn eich meddwl. (Nid yw hyn i weld yn glir ar lyfryn du sydd wedi cael ei lungopïo i gyd! Dylech ddefnyddio lliw gwahanol ar gyfer pob prif gangen a'i holl is-ganghennau).

9. Trafodwch syniadau. Byddwch yn greadigol.

10. Dyluniwch ddelweddau y gallwch chi gysylltu â nhw a fydd yn eich helpu i gofio gwybodaeth allweddol.